Swyddfa Gartref

# Ymgynghoriad ar weithredu rheoliad yr Undeb Ewropeaidd ar farchnata a defnyddio rhagsylweddion ffrwydron yn y Deyrnas Unedig

Tachwedd 2013

# Ymgynghoriad ar weithredu rheoliad yr Undeb Ewropeaidd ar farchnata a defnyddio rhagsylweddion ffrwydron yn y Deyrnas Unedig

## Cwmpas yr ymgynghoriad

| | |
|---|---|
| **Pwnc yr Ymgynghoriad:** | Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar weithredu rheoliad (UE) rhif 98/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 15 Ionawr 2013 ar farchnata a defnyddio rhagsylweddion ffrwydron. |
| **Cwmpas yr ymgynghoriad:** | Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â gweithredu gweithdrefnau polisi a gorfodi i reoli gwerthiant rhagsylweddion ffrwydron.<br><br>Nod y diwygiadau yw cynyddu'r rheolaeth ar ddefnyddwyr gan gadw'r baich ar fusnesau cyn lleied â phosibl. |
| **Cwmpas daearyddol:** | Y Deyrnas Unedig. |
| **Asesiad effaith:** | Ynghlwm |

## Gwybodaeth sylfaenol

| | |
|---|---|
| **At:** | Mae'r ymgynghoriad hwn ar agor i'r cyhoedd. |
| **Cyfnod:** | Mae'r ymgynghoriad hwn yn para saith wythnos o 21 Tachwedd 2013 |
| **Ymholiadau:** | **precursorsandpoisons@homeoffice.x.gsi.gov.uk** |
| **Sut i ymateb:** | Ceir gwybodaeth ynglŷn â sut i ymateb i'r ymgynghoriad hwn ar www.gov.uk yn:<br><br>**https://www.gov.uk/government/consultations/precursors-and-poisons-consultations**<br><br>Gellir cynnig ymatebion ar-lein trwy www.gov.uk neu trwy'r post trwy yrru ymatebion at:<br><br>Explosives Precursors and Poisons Regulation Consultation<br>Home Office<br>CBRNE unit<br>5th Floor Peel Building<br>2 Marsham Street<br>London, SW1P 4DF |
| **Ffyrdd eraill i fod yn rhan o bethau:** | Cysylltwch â'r Swyddfa Gartref (fel yr uchod) os hoffech gael gwybodaeth ar unrhyw ffurf wahanol, megis Braille, ffont mwy neu sain. |
| **Yn dilyn yr ymgynghoriad:** | Bydd ymatebion yn cael eu dadansoddi a chyhoeddir dogfen 'ymatebion i'r ymgynghoriad'. |

## Hysbysiad prosesu teg

Gall rhai o'r cwestiynau yn yr arolwg hwn ofyn am wybodaeth bersonol. Cofiwch **nad oes unrhyw orfodaeth** arnoch i roi'r wybodaeth yma os dymunwch beidio.

Os ydych yn fodlon rhoi gwybodaeth bersonol, sylwer:

- Bydd unrhyw wybodaeth bersonol yn cael ei chadw ar system ddiogel.
- Ni fydd yn cael ei rhannu gyda thrydydd partïon.
- Ni chedwir eich gwybodaeth bersonol am fwy na 6 mis ac fe'i defnyddir at ddibenion yr ymgynghoriad hwn yn unig.
- Gall un o swyddogion y Swyddfa Gartref gysylltu â chi i gael eich ymateb i'r ymgynghoriad ac i drafod eich atebion yn fwy manwl.

## Cyflwyniad

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar gyflwyno camau rheoli ar werthu cemegolion y gellir eu defnyddio i wneud ffrwydron cartref.

Yn y Deyrnas Unedig ac yn fyd-eang, ffrwydron fu'r arf o ddewis gan derfysgwyr ers blynyddoedd lawer. Bu ffrwydron cartref yn rhan o dros 70% o'r ymosodiadau yn y Deyrnas Unedig ers diwedd yr 1990au. Maent yn gallu achosi niwed ar raddfa eang a difrod sylweddol i isadeiledd. Bydd rhai o'r cemegolion a ddefnyddir i wneud y ffrwydron a ddefnyddir yn yr ymosodiadau yma yn cael eu defnyddio yn hollol ddilys yn y cartref. Mae'n bwysig i ni ddiogelu rhag eu camddefnyddio, gan ganiatáu defnydd cyfreithlon ohonynt.

Mae Rheoliad yr Undeb Ewropeaidd sy'n destun i'r ymgynghoriad hwn yn gwahardd gwerthu saith rhagsylweddyn cemegol (Atodiad 1 i'r rheoliad) i ffrwydron cartref uwchlaw crynodiad penodol. Gall Aelod Wladwriaethau benderfynu caniatáu prynu'r cemegolion hyn uwchlaw'r crynodiad trwy gyflwyno trwydded neu gofrestru manylion personol. Rhaid i adwerthwyr a chyfanwerthwyr sicrhau bod unrhyw gynnyrch sy'n cael ei gyfyngu yn cael ei labelu yn ôl y cyfarwyddyd sydd i'w ddatblygu gan y Comisiwn Ewropeaidd. Rhaid i adwerthwyr hefyd fonitro trafodion yn y cemegolion hyn ac wyth cemegyn arall (Atodiad 2 i'r rheoliad) am weithgaredd amheus ar unrhyw grynodiad sydd yn ddigon mawr i'r sylwedd gael ei restru fel cynhwysyn.

## Amcanion

Amcanion y polisi yw:

- Atal terfysgwyr rhag defnyddio rhagsylweddion ffrwydron mewn ymosodiadau;
- Cynnig peirianwaith i roi rhybudd i awdurdodau o weithgaredd terfysgol; a
- Chadw'r baich ar ddiwydiant a defnyddwyr cyfreithlon cyn lleied â phosibl.

## Cefndir

Rhennir y rheoliad yn ddau atodiad. Cemegolion Atodiad 1 yw'r rhai sydd â hanes arwyddocaol o gamddefnydd effeithiol ar draws Ewrop. Cemegolion Atodiad 2 yw'r rhai sydd wedi cael eu defnyddio mewn ymosodiadau terfysgol, ond sy'n anos gwneud ffrwydron ohonynt neu pan oedd gwahardd neu gyfyngu ar werthiant yn cael eu hystyried yn anghymesur â'r risg yr oedd y cemegolyn yn ei greu. O ran amoniwm nitrad, rheolir ei adwerthu gan reoliadau eraill.

**Dewis 1** yw peidio â gwneud unrhyw newid (gwneud dim).

**Dewis 2** yw gwahardd gwerthu cemegolion Atodiad 1 uwchlaw'r cyfyngiadau crynodiad i'r cyhoedd. Ni fyddai'r gwaharddiad yn effeithio ar werthiannau o fusnes i fusnes.

Cemegolion Atodiad 1:

| Enw'r sylwedd | Cyfyngiad crynodiad |
|---|---|
| Hydrogen perocsid | 12% w/w |
| Nitromethan | 30% w/w |
| Asid Nitrig | 3% w/w |
| Potasiwm Clorad | 40% w/w |
| Potasiwm perclorad | 40% w/w |
| Sodiwm Clorad | 40% w/w |
| Sodiwm perclorad | 40% w/w |

**Dewis 3** yw gadael i'r cyhoedd brynu cemegolion Atodiad 1 uwchlaw'r cyfyngiadau crynodiad os oes ganddynt drwydded ddilys.

**Dewis 4** yw gadael i'r cyhoedd brynu'r cemegolion Atodiad 1 canlynol uwchlaw'r cyfyngiadau crynodiad (Grŵp A) gyda thrwydded:

| Enw'r sylwedd | Cyfyngiad crynodiad |
|---|---|
| Potasiwm Clorad | 40% w/w |
| Potasiwm perclorad | 40% w/w |
| Sodiwm Clorad | 40% w/w |
| Sodiwm perclorad | 40% w/w |

a'r cemegolion Atodiad 1 canlynol (Grŵp B) trwy roi manylion personol ar gofrestr wrth eu prynu.

| Enw'r sylwedd | Cyfyngiad crynodiad |
|---|---|
| Hydrogen perocsid | 12% w/w – 35% w/w |
| Nitromethan | 30% w/w – 40% w/w |
| Asid Nitrig | 3% w/w – 10% w/w |

Uwchlaw'r cyfyngiadau crynodiad a nodir ar gyfer Grŵp B uchod, byddai gwerthiannau i'r cyhoedd naill ai yn cael eu a) gwahardd neu b) eu trwyddedu.

Mae Dewisiadau 2-4 hefyd yn cynnwys gofyn i labelu cynnyrch y mae'r cyfyngiadau yn Atodiad 1 yn effeithio arnyn nhw yn glir i nodi bod cyfyngiad ar gaffael, meddiannu, cyflwyno neu ddefnyddio'r cynnyrch.

Mae Dewisiadau 2-4 yn cynnwys gofyn am roi adroddiad ar drafodion amheus, dwyn a cholledion sylweddol. Mae'r gofyniad hwn yn angenrheidiol ar gyfer pob trafodyn sy'n cynnwys Atodiad 1 ac Atodiad 2 ar unrhyw grynodiad gan gynnwys gwerthiannau busnes i fusnes. Bydd cyfarwyddyd ar fanylion hyn yn cael ei baratoi gan y Comisiwn Ewropeaidd cyn 2 Medi 2014 (y dyddiad a bennwyd ar gyfer trosi).

Cemegolion Atodiad 2:

| Enw'r sylwedd |
|---|
| Hecsamin |
| Asid sylffwrig |
| Aceton |
| Potasiwm nitrad |
| Sodiwm nitrad |
| Calsiwm nitrad |
| Calsiwm amoniwm nitrad |
| Amoniwm nitrad |

Bydd y dewisiadau a gynigir ar gyfer gweithredu rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd sy'n cyfyngu ar werthu rhagsylweddion cemegol i'r cyhoedd yn cael effaith uniongyrchol ar fusnesau sy'n gwerthu cemegolion Atodiad 1 neu 2 a defnyddwyr sy'n prynu'r cemegolion yma i'w defnyddio gartref. Yr enghreifftiau o ddefnyddio'r cemegolion hyn yn y cartref yw nitromethan mewn modelau o beiriannau, hydrogen perocsid mewn glanhawr pyllau nofio ac asid nitrig i lanhau gemwaith.

Gall y cais i fusnesau roi adroddiad am drafodion amheus effeithio ar unrhyw gwsmer i gemegolion Atodiad 1 neu 2.

Yn ychwanegol, bydd y cynnig i reoleiddio defnyddio'r cemegolion hyn yn effeithio ar ddefnyddwyr cemegolion Atodiad 1 (uwchlaw'r crynodiad) yn y cartref.

## Trwyddedau

Bydd Dewis 3 yn gofyn i ddefnyddwyr cartref feddu ar drwydded er mwyn medru prynu rhagsylweddion ffrwydron Atodiad 1. Bydd y drwydded yn parhau am dair blynedd a bydd yn amlbwrpas, gan roi'r dewis i ddefnyddio'r drwydded ar gyfer gwenwynau a rhagsylweddion ffrwydron (gweler yr Ymgynghoriad ar y newidiadau arfaethedig i Ddeddf Gwenwynau 1972, Rheolau Gwenwynau 1982, Rhestr Gwenwynau 1982 a'r diwygiadau cysylltiedig).
Byddai ffi'r drwydded yn seiliedig ar adfer y gost yn llawn. Mae hyn yn golygu y bydd cost y drwydded yn cael ei phennu gan nifer y ceisiadau a dderbynnir a chostau prosesu'r cais am drwydded. Gall y broses ymgeisio gymryd peth amser hefyd gan fod angen i ni gynnal gwiriadau ar gefndir yr ymgeisydd i bennu a yw'n addas.

Hoffem gasglu tystiolaeth a fyddai defnyddwyr cartref yn ystyried prynu trwydded, yn hytrach na defnyddio dewisiadau eraill, ac os felly, beth yw uchafswm y pris y bydden nhw'n barod i'w dalu am drwydded.

## Gwerthiannau busnes i fusnes

Mae gwerthiannau busnes i fusnes yn cael eu heithrio o'r rheoliadau a roddwyd ar gemegolion Atodiad 1 (uwchlaw'r crynodiad). Ond, rhaid i fusnesau fod yn hyderus mai busnes neu ddefnyddiwr proffesiynol arall yw'r prynwr. Rydym felly yn argymell bod yn rhaid i fusnes wrth werthu i fusnes arall wirio am brawf o TAW yn ogystal â rhyw ffurf arall o brawf, fel rhif cwmni'r prynwr.

## Rhoi adroddiad am drafodion amheus

Bydd raid i fusnesau sy'n gwerthu'r cemegolion a restrir fod yn ymwybodol o drafodion a all fod yn amheus.

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi paratoi cyfarwyddyd drafft ar sut y gallai trafodion amheus ymddangos.

Mae'r cyfarwyddyd drafft yn nodi bod trafodyn amheus yn unrhyw bryniant (neu ymdrech i brynu) ar un neu fwy o'r rhagsylweddion ffrwydron a restrir yn Atodiad 1 neu 2 o'r rheoliad sy'n gwyro o'r hyn y byddid yn ei ddisgwyl fel arfer.

Mae'r dangosyddion ar gyfer ymddygiad amheus yn cynnwys pan fydd cwsmer:

- Yn ymddangos yn nerfus neu yn osgoi cwestiynau, neu nad yw'r math arferol o gwsmer,
- Yn ceisio prynu swm anarferol o gynnyrch neu gyfuniad anarferol o gynhyrchion,
- Yn anghyfarwydd â'r defnydd arferol o'r cynnyrch, ac â'r cyfarwyddiadau trin,
- Yn amharod i rannu beth mae ef/hi yn bwriadu defnyddio'r cynnyrch ar ei gyfer,
- Yn gwrthod cynnyrch arall neu gynhyrchion gyda chrynodiad is (ond digonol i'r bwriad a roddwyd),
- Yn mynnu talu mewn arian parod, symiau mawr yn enwedig
- Yn gwrthod rhoi ei enw/ei henw, cyfeiriad neu rif ffôn, neu ddogfennau adnabod pan ofynnir amdanynt,
- Yn gofyn am becynnu neu ddosbarthu arbennig ar y cynnyrch/cynhyrchion.

Mae'n ofynnol i gwmnïau roi adroddiad ar fanylion unrhyw ymddygiad sydd yn amheus yn eu golwg (nid yr 8 enghraifft uchod yn unig) ac a all fod yn bwysig i atal camddefnyddio rhagsylweddion ffrwydron. Dylech hefyd roi adroddiad ar adegau pan fydd cynnyrch yn diflannu neu'n cael ei ddwyn sy'n arwyddocaol a/neu anarferol i'ch busnes chi neu na ellir eu hesbonio yn rhwydd.

Bydd raid i bob busnes gyfarwyddo â'r rheoliadau ar drafodion amheus a rhoi adroddiad ar golledion arwyddocaol. Mae'r asesiad effaith yn tybio y bydd hyn yn cymryd tua 1 awr i bob aelod o staff ym mhob busnes.

Bydd raid i bob busnes wirio pa rai o'u cynnyrch y mae hyn yn effeithio arnyn nhw. Mae'r asesiad effaith yn tybio y bydd hyn yn cymryd tua 2 awr i bob busnes.

Bydd raid i adwerthwyr Atodiad 1 (uwchlaw'r crynodiad) ymgyfarwyddo â'r rheoliadau newydd. Mae'r asesiad effaith yn tybio y bydd hyn yn cymryd tua hanner diwrnod (3.5 awr) i bob aelod o staff ym mhob busnes.

Bydd angen i adwerthwyr Atodiad 1 (uwchlaw'r crynodiad) wirio pa grynodiad sydd yn eu cynnyrch i bennu pa reoliadau fydd yn effeithio arnyn nhw. Mae'r asesiad effaith yn tybio y bydd hyn yn cymryd tua 2 awr i bob busnes.

Mae'r asesiad effaith yn tybio y bydd yn cymryd 15 munud y dydd i wirio trwyddedau defnyddwyr cartref.

Mae Dewis 4 yn caniatáu i'r cyhoedd brynu cemegolion Grŵp B, Atodiad 1 trwy roi manylion personol ar gofrestr wrth eu prynu. Mae'r asesiad effaith yn tybio y bydd hyn yn cymryd tua 10 munud y dydd i bob busnes.

Rydym hefyd yn ymgynghori ar y dewis i drwyddedu defnydd y cyhoedd ar wenwynau Rhan 1. Un dewis fyddai cynnig trwydded amlbwrpas y gellid ei defnyddio ar gyfer cemegolion Atodiad 1 a gwenwynau Rhan 1.

## Gwerthiannau rhyngrwyd

Byddai'r rheoliadau yn effeithio ar werthiannau rhyngrwyd hefyd. Bydd angen i adwerthwyr ar-lein sy'n gwerthu cemegolion Atodiad 1 uwchlaw'r trothwyon crynodiad sicrhau eu bod yn gwerthu i fusnesau (Dewis 2) neu i'r cyhoedd trwyddedig/cofrestredig (Dewis 3/4). Tybir na fyddai'n costio llawer i newid y meysydd yn eu ffurflen archebu ar-lein i ofyn am rif trwydded neu ofyn am fanylion cofrestru (Dewis 3/4). Gofynnir hefyd am y gwasanaeth dosbarthu preifat i sicrhau bod gan y derbynnydd y dogfennau angenrheidiol (ar gyfer busnesau, gallai hyn fod yn dderbynebau TAW, i ddefnyddiwr trwyddedig, byddai angen y drwydded).

## Labelu

Bydd angen i bob busnes labelu cemegolion Atodiad 1 uwchlaw'r trothwyon crynodiad. Tybiwyd, cyn belled â bod gweithgynhyrchwyr/llunwyr yn gwybod am y gofyn mewn da bryd cyn i'r rheoliadau ddod i rym, y byddai costau ychwanegu un llinell o destun at labeli yn ddibwys.

**Os ydych yn ddefnyddiwr cartref o'r cemegolion dan sylw neu'n aelod o'r cyhoedd defnyddiwch y ffurflen ymateb yn Atodiad A.**

**Os ydych yn cynrychioli busnes defnyddiwch y ffurflen ymateb yn Atodiad B.**

# Atodiad A: Ymateb gan Ddefnyddwyr Cartref

Gall yr Adran, yn unol â'r Cod Ymarfer ar Fynediad at Wybodaeth y Llywodraeth, roi ymatebion unigol ar gael, os bydd gofyn gan y cyhoedd.

**Y dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad hwn yw 6 Ionawr 2014.**

| |
|---|
| Enw: |
| Sefydliad: (os yn berthnasol): |
| Cyfeiriad: |

Dychwelwch ffurflenni wedi eu llenwi at:

Explosives Precursors and Poisons Regulation Consultation
Home Office, CBRNE unit, 5th Floor Peel Building, 2 Marsham Street, London SW1P 4DF

E-bost: **precursorsandpoisons@homeoffice.x.gsi.gov.uk**

Rydym ar fin gofyn cwestiynau i chi am eich defnydd cartref o'r cemegolion yn Atodiad 1 (uwchlaw'r crynodiad). Bydd hyn yn helpu i sicrhau ein bod yn gwybod am yr holl ddefnyddiau cartref posibl o'r cemegolion hyn.

## C1: Pa gemegolion Atodiad 1 uwchlaw'r crynodiad ydych chi'n eu defnyddio? (ticiwch bob un sy'n berthnasol)

| | |
|---|---|
| Hydrogen perocsid (uwchlaw 12% w/w) | |
| Nitromethan (uwchlaw 30% w/w) | |
| Asid nitrig (uwchlaw 3% w/w) | |
| Potasiwm Clorad (uwchlaw 40% w/w) | |
| Potasiwm Perclorad (uwchlaw 40% w/w) | |
| Sodiwm Clorad (uwchlaw 40% w/w) | |
| Sodiwm Perclorad (uwchlaw 40% w/w) | |

## C2: Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio eich defnydd o gemegolion Atodiad 1 (uwchlaw'r crynodiad) orau? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol.)

| | |
|---|---|
| Modelau o beiriannau (nitromethan uwchlaw 12% w/w) | |
| Glanhawr pyllau nofio (hydrogen perocsid uwchlaw 30% w/w) | |
| Glanhawr gemwaith (asid nitrig uwchlaw 3% w/w) | |
| Cynnyrch cosmetig (hydrogen perocsid uwchlaw 12% w/w) | |
| Arall (nodwch y gweithgaredd, y cemegolyn a'r crynodiad isod) | |

Gweithgaredd(au), cemegolyn/ion a'r crynodiad

Rydym yn awr yn mynd i ofyn cwestiynau i chi am y sylweddau yr ydych yn eu defnyddio gartref. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall y galw am y cemegolion hyn er mwyn amcangyfrif effaith y rheoliadau hyn.

## C3: Faint o bob cemegolyn Atodiad 1 (uwchlaw'r crynodiad) a ddewiswyd gennych uchod fyddwch chi'n ei ddefnyddio yn flynyddol? (Rhowch dic isod.)

| Sylwedd Atodiad 1 | Faint y flwyddyn | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Hydrogen perocsid (uwchlaw 12% w/w) | 0-500ml | 501- 1000ml | 1001- 2000ml | 2001ml – 5000ml | mwy na 5000ml |
| Nitromethan (uwchlaw 30% w/w) | 0-5L | 5.1 – 10L | 10.1-20L | 20.1- 30L | mwy na 30L |
| Asid nitrig (uwchlaw 3% w/w) | 0-100ml | 101-250ml | 251-500ml | 501-1000ml | Mwy na 1000ml |
| Potasiwm Clorad (uwchlaw 40% w/w) | 0-100g, | 101-500g | 501-1000g | 1001-2000g | mwy na 2000g |
| Potasiwm Perclorad (uwchlaw 40% w/w) | 0-100g | 101-500g | 501-1000g | 1001-2000g | Mwy na 2000g |
| Sodiwm Clorad (uwchlaw 40% w/w) | 0-100g | 101-500g | 501-1000g | 1001- 2000g | mwy na 2000g |
| Sodiwm Perclorad (uwchlaw 40% w/w) | 0-100g | 101-500g | 501-1000g | 1001-2000g | Mwy na 2000g |

Os ydych yn gwybod beth yw'r union symiau, nodwch yn y gofod isod gan gynnwys cyfeiriad at y cemegolyn/ion yr ydych yn eu defnyddio.

Cemegolyn ac yn union faint:

## C4: Faint fyddwch chi'n ei wario ar bob un o'r cemegolion yma bob blwyddyn? (Rhowch dic isod)

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Hydrogen perocsid (uwchlaw 12% w/w)** | Amh | £1-15 | £16-30 | £31-45 | mwy na £45 |
| **Nitromethan (uwchlaw 30% w/w)** | Amh | £1-20 | £21-40 | £41-60 | mwy na £60 |
| **Asid nitrig (uwchlaw 3% w/w)** | Amh | £1-10 | £11-20 | £21-30 | mwy na £30 |
| **Potasiwm Clorad (uwchlaw 40% w/w)** | Amh | £1-10 | £11-20 | £21-30 | mwy na £30 |
| **Potasiwm Perclorad (uwchlaw 40% w/w)** | Amh | £1-10 | £11-20 | £21-30 | mwy na £30 |
| **Sodiwm Clorad (uwchlaw 40% w/w)** | Amh | £1-10 | £11-20 | £21-30 | mwy na £30 |
| **Sodiwm Perclorad (uwchlaw 40% w/w)** | Amh | £1-10 | £11-20 | £21-30 | mwy na £30 |

Os ydych yn gwybod yr union gostau, nodwch yn y gofod isod gan gynnwys cyfeiriad at y cemegolyn/ion yr ydych yn eu defnyddio.

Cemegolyn ac yn union faint:

### C5: A allech chi ddefnyddio rhywbeth heblaw cemegolion Atodiad 1 (uwchlaw'r crynodiad)?

| | |
|---|---|
| Gallwn | |
| Na | |

### C6: Rhestrwch y cemegolion gwahanol y gallech eu defnyddio isod.

Cemegolyn a defnydd:

### C7: A yw'r dewis arall y gallech ei ddefnyddio yn costio mwy neu lai na'r cemegolion Atodiad 1 (uwchlaw'r crynodiad)?

| | |
|---|---|
| Cost yn sylweddol uwch | |
| Cost ychydig yn uwch | |
| Cost yr un fath | |
| Cost ychydig llai | |
| Cost yn llai yn sylweddol | |
| Ddim yn gwybod | |

### C8: Defnyddiwch y gofod isod i esbonio eich ateb.

### C9: A fyddech chi'n parhau i brynu'r cemegolion Atodiad 1 a ddewisir uchod petai angen trwydded?

| | |
|---|---|
| Byddwn | |
| Na | |
| Ddim yn gwybod | |

C10: Defnyddiwch y gofod isod i esbonio eich ateb.

C11: Beth yw'r uchafswm y byddech yn ei dalu am drwydded cyn y byddech yn cael eich rhwystro rhag ymgeisio?

| | |
|---|---|
| £0 | |
| £1-£10 | |
| £11-20 | |
| £21-£40 | |
| £41-£60 | |
| £61-80 | |
| £80+ | |

Rydym hefyd yn ymgynghori ar y dewis i drwyddedu defnydd y cyhoedd ar wenwynau Rhan 1. Un dewis fyddai cynnig trwydded amlbwrpas y gellid ei defnyddio ar gyfer cemegolion Atodiad 1 a rhagsylweddion ffrwydron Atodiad 1.

C12: A ydych yn prynu gwenwynau Rhan 1 hefyd? (Gweler yr Ymgynghoriad ar y newidiadau arfaethedig i Ddeddf Gwenwynau 1972, Rheolau Gwenwynau 1982, Rhestr Gwenwynau 1982 a'r diwygiadau cysylltiedig.)

| | |
|---|---|
| Ydw | |
| Na | |

## C13: A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y bydd y dewisiadau a nodir isod yn sicrhau y bydd yr amcanion polisi yn cael eu cyflawni? (Ticiwch y blychau perthnasol isod.)

| | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|
| Dewis 1: Gwneud dim | | | | |
| Dewis 2: Gwahardd gwerthu cemegolion Atodiad 1 uwchlaw'r cyfyngiadau crynodiad i'r cyhoedd | | | | |
| Dewis 3: Gadael y cyhoedd i brynu, defnyddio a meddu cemegolion Atodiad 1 uwchlaw'r cyfyngiadau crynodiad os bydd ganddynt drwydded ddilys | | | | |
| Dewis 4 a): Gadael i'r cyhoedd brynu, defnyddio a meddu Grŵp A o'r cemegolion Atodiad 1 uwchlaw'r cyfyngiadau crynodiad gyda thrwydded, a Grŵp B trwy roi manylion personol ar gofrestr wrth brynu. Uwchlaw'r cyfyngiadau crynodiad i Grŵp B, byddai gwerthu i'r cyhoedd yn cael ei wahardd. | | | | |
| Dewis 4 b): Yr un fath â Dewis 4 a), ond bydd prynu, defnyddio a meddu cemegolion Grŵp B uwchlaw'r cyfyngiadau crynodiad yn cael eu trwyddedu yn hytrach na'u gwahardd. | | | | |
| Arall | | | | |

## C14: Defnyddiwch y gofod isod i esbonio eich ateb.

## C15: Gosodwch y dewisiadau yn y drefn orau gennych:

| | Dewis cyntaf | Ail ddewis | Trydydd dewis | Pedwerydd dewis | Pumed dewis |
|---|---|---|---|---|---|
| Dewis 1: | | | | | |
| Dewis 2: | | | | | |
| Dewis 3: | | | | | |
| Dewis 4a | | | | | |
| Dewis 4b | | | | | |

C16: Defnyddiwch y gofod isod i esbonio eich ateb.

C17: Rhowch unrhyw fanylion y byddech am i ni eu hystyried fel rhan o'r ymgynghoriad nad ydynt wedi eu trafod yn y cwestiynau uchod.

## Hysbysiad prosesu teg

Gall rhai o'r cwestiynau yn yr arolwg hwn ofyn am wybodaeth bersonol. Cofiwch **nad oes unrhyw orfodaeth** arnoch i roi'r wybodaeth yma os dymunwch beidio.

Os ydych yn fodlon rhoi gwybodaeth bersonol, sylwer:

- Bydd unrhyw wybodaeth bersonol yn cael ei chadw ar system ddiogel.
- Ni fydd yn cael ei rhannu gyda thrydydd partïon.
- Ni chedwir eich gwybodaeth bersonol am fwy na 6 mis ac fe'i defnyddir at ddibenion yr ymgynghoriad hwn yn unig.
- Gall un o swyddogion y Swyddfa Gartref gysylltu â chi i gael eich ymateb i'r ymgynghoriad ac i drafod eich atebion yn fwy manwl.

# Atodiad B: Ffurflen ymateb i fusnesau

Gall yr Adran, yn unol â'r Cod Ymarfer ar Fynediad at Wybodaeth y Llywodraeth, roi ymatebion unigol ar gael, os bydd gofyn gan y cyhoedd.

**Y dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad hwn yw 6 Ionawr 2014.**

| |
|---|
| Enw: |
| Sefydliad: (os yn berthnasol): |
| Cyfeiriad: |

Dychwelwch ffurflenni wedi eu llenwi at:

Explosives Precursors and Poisons Regulation Consultation
Home Office, CBRNE unit, 5th Floor Peel Building, 2 Marsham Street, London SW1P 4DF

E-bost: **precursorsandpoisons@homeoffice.x.gsi.gov.uk**

Rydym ar fin gofyn cwestiynau i chi am eich busnes. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall y math o fusnesau a'r nifer ohonynt y gall y rheoliadau hyn effeithio arnynt.

## C1: Sut y byddech yn disgrifio eich busnes? (Rhowch dic wrth bob un sy'n berthnasol)

| | |
|---|---|
| Cynhyrchydd | |
| Lluniwr | |
| Cyfanwerthwr | |
| Adwerthwr | |
| Dosbarthydd Ar-lein | |
| Arall | |

Defnyddiwch y gofod isod i esbonio eich ateb.

## C2: Pa rai o gemegolion Atodiad 1 a 2 ydych chi'n eu gwerthu, cynhyrchu neu lunio? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol.)

| | |
|---|---|
| Hydrogen perocsid | |
| Nitromethan | |
| Asid nitrig | |
| Potasiwm Clorad | |
| Potasiwm Perclorad | |
| Sodiwm Clorad | |
| Sodiwm Perclorad | |
| Hecsamin | |
| Asid sylffwrig | |
| Aceton | |
| Potasiwm nitrad | |
| Sodiwm nitrad | |
| Calsiwm nitrad | |
| Calsiwm amoniwm nitrad | |
| Amoniwm nitrad | |
| Dim un o'r uchod | |

## C3: Os ydych yn defnyddio'r cemegolion yma yn broffesiynol, a fyddech yn medru darparu un o'r dogfennau a restrir yn yr adran busnes i fusnes ar dudalen 6 yn rhwydd?

| | |
|---|---|
| Byddwn | |
| Na | |
| Ddim yn gwybod | |
| Ddim yn ddefnyddiwr proffesiynol | |

C4: Defnyddiwch y gofod isod i esbonio eich ateb

C5: A ydych yn cytuno neu'n anghytuno bod y cyfarwyddyd ar roi adroddiad am drafodion amheus ar dudalen 6 yn hawdd ei ddeall?

| | |
|---|---|
| Cytuno'n gryf | |
| Tueddu i gytuno | |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | |
| Tueddu i anghytuno | |
| Anghytuno'n gryf | |
| Ddim yn gwybod | |

C6: Defnyddiwch y gofod isod i esbonio eich ateb

C7: A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y byddai'r cyfarwyddyd hwn yn hawdd i'w weithredu?

| | |
|---|---|
| Cytuno'n gryf | |
| Tueddu i gytuno | |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | |
| Tueddu i anghytuno | |
| Anghytuno'n gryf | |
| Ddim yn gwybod | |

C8: Defnyddiwch y gofod isod i esbonio eich ateb.

C9: A ydych yn meddwl bod yr amser, sef 1 awr, yr ydym wedi ei amcangyfrif i'r busnesau y bydd y rheoliadau yn effeithio arnynt ymgyfarwyddo â'r gofynion rhoi adroddiad am drafodion amheus yn:

| | |
|---|---|
| Rhy hir | |
| Yn agos i'w le | |
| Rhy brin | |
| Ddim yn gwybod | |

C10: Defnyddiwch y gofod isod i esbonio eich ateb gan gynnwys amcangyfrif o'r amser yr ydych yn ei feddwl y gall ymgyfarwyddo ei gymryd?

C11: A ydych yn credu bod yr amser a amcangyfrifwyd o 2 awr i'r busnesau y bydd y rheoliadau yn effeithio arnynt wirio pa rai o'u cynnyrch y bydd yn effeithio arnynt yn:

| | |
|---|---|
| Rhy hir | |
| Yn agos i'w le | |
| Rhy brin | |
| Ddim yn gwybod | |

## C12: Defnyddiwch y gofod isod i esbonio eich ateb, gan gynnwys amcangyfrif o’r amser yr ydych yn ei feddwl y gall y gwirio ei gymryd?

## C13: A fyddai’r gofynion rhoi adroddiad am drafodion amheus yn eich atal rhag gwerthu sylweddau Atodiad 1 neu 2?

| | |
|---|---|
| Byddai | |
| Na | |
| Ddim yn gwybod | |

Rydym yn awr yn mynd i’ch holi am y sylweddau yr ydych yn eu cyflenwi. Bydd hyn o gymorth i ni asesu effaith y cynigion, mae arnom angen deall beth yw maint a gwerth y farchnad y bydd hyn yn effeithio arni.

## C14: Pa gynnyrch/gynhyrchion ydych chi’n eu gwerthu neu yn eu defnyddio y byddai’r rheoliadau Atodiad 1 yn effeithio arnyn nhw? (Dewiswch bob un sy’n berthnasol.)

| | |
|---|---|
| Hydrogen perocsid (uwchlaw 12% w/w) | |
| Nitromethan (uwchlaw 30% w/w) | |
| Asid nitrig (uwchlaw 3% w/w) | |
| Potasiwm Clorad (uwchlaw 40% w/w) | |
| Potasiwm Perclorad (uwchlaw 40% w/w) | |
| Sodiwm Clorad (uwchlaw 40% w/w) | |
| Sodiwm Perclorad (uwchlaw 40% w/w) | |

## C15: Sut y byddech yn disgrifio eich busnes?

C16: Ar ba grynodiad ydych chi'n gwerthu neu'n defnyddio'r sylweddau yn Atodiad 1 a ddewiswyd uchod?

| | |
|---|---|
| Hydrogen perocsid (uwchlaw 12% w/w) | |
| Nitromethan (uwchlaw 30% w/w) | |
| Asid nitrig (uwchlaw 3% w/w) | |
| Potasiwm Clorad (uwchlaw 40% w/w) | |
| Potasiwm Perclorad (uwchlaw 40% w/w) | |
| Sodiwm Clorad (uwchlaw 40% w/w) | |
| Sodiwm Perclorad (uwchlaw 40% w/w) | |

C17: Pa gyfaint o bob eitem o'r sylweddau yn Atodiad 1 a ddewiswyd uchod fyddwch chi'n ei werthu neu ei ddefnyddio?

| | |
|---|---|
| Hydrogen perocsid (uwchlaw 12% w/w) | |
| Nitromethan (uwchlaw 30% w/w) | |
| Asid nitrig (uwchlaw 3% w/w) | |
| Potasiwm Clorad (uwchlaw 40% w/w) | |
| Potasiwm Perclorad (uwchlaw 40% w/w) | |
| Sodiwm Clorad (uwchlaw 40% w/w) | |
| Sodiwm Perclorad (uwchlaw 40% w/w) | |

C18: Os ydych yn fodlon rhannu'r wybodaeth hon, beth yw'r amcangyfrif o'ch refeniw o werthiannau i'r cyhoedd o gemegolion Atodiad 1 (uwchlaw'r crynodiad)? Rhowch fanylion ar gyfer pob cemegolyn.

C19: Ar gyfer pa ddiben yn y cartref y byddwch yn gwerthu cemegolion Atodiad 1 (uwchlaw'r crynodiad)?

| | |
|---|---|
| Modelau o beiriannau | |
| Pwll nofio | |
| Gwneud gemwaith | |
| Cynnyrch cosmetig | |
| Arall | |
| Ddim yn gwybod | |

C20: Nodwch y gweithgaredd, y cemegolyn a'r crynodiad.

C21: A ydych yn meddwl bod yr amser a amcangyfrifwyd ar 3.5 awr i adwerthwyr y mae Atodiad 1 (uwchlaw'r crynodiad) yn effeithio arnyn nhw ymgyfarwyddo â'r gofynion trwyddedu newydd yn:

| | |
|---|---|
| Rhy hir | |
| Yn agos i'w le | |
| Rhy brin | |
| Ddim yn gwybod | |

C22: Defnyddiwch y gofod isod i esbonio eich ateb.

C23: A ydych yn credu bod yr amser a amcangyfrifwyd o 2 awr i'r cyflenwyr y bydd y rheoliadau yn effeithio arnynt wirio pa rai o'u cynnyrch y bydd yn effeithio arnynt yn:

| | |
|---|---|
| Rhy hir | |
| Yn agos i'w le | |
| Rhy brin | |
| Ddim yn gwybod | |

C24: Defnyddiwch y gofod isod i esbonio eich ateb.

C25: A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r dybiaeth na fydd costau sylweddol i adwerthwyr ar-lein ddiweddaru eu ffurflenni cais ar-lein?

| | |
|---|---|
| Cytuno | |
| Ddim yn gwybod | |
| Anghytuno | |

C26: Defnyddiwch y gofod isod i esbonio eich ateb.

C27: A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r dybiaeth **na fydd** gwasanaeth dosbarthu preifat yn tynnu cost sylweddol wrth orfod gwirio am y dogfennau angenrheidiol a ddisgrifir yn yr adran gwerthiannau ar-lein ar dudalen 7?

| | |
|---|---|
| Cytuno | |
| Ddim yn gwybod | |
| Anghytuno | |

C28: Defnyddiwch y gofod isod i esbonio eich ateb.

C29: A ydych yn cytuno neu'n anghytuno **y byddai** costau ychwanegu un llinell o destun ar label yn ddibwys os rhoddir digon o rybudd i fusnesau?

| | |
|---|---|
| Cytuno | |
| Ddim yn gwybod | |
| Anghytuno | |

C30: Defnyddiwch y gofod isod i esbonio eich ateb.

C31: A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y bydd yr angen i ymgeisio am drwydded yn atal **defnyddwyr cartref** rhag prynu eich cynnyrch/cynhyrchion?

| | |
|---|---|
| Cytuno | |
| Ddim yn gwybod | |
| Anghytuno | |

C32: Defnyddiwch y gofod isod i esbonio eich ateb

C33: A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y byddai'r angen i ddefnyddwyr cartref gael trwydded yn eich atal chi rhag gwerthu i'r cyhoedd?

| | |
|---|---|
| Cytuno | |
| Ddim yn gwybod | |
| Anghytuno | |

C34: Defnyddiwch y gofod isod i esbonio eich ateb

C35: A ydych yn meddwl bod yr amser a amcangyfrifwyd o 15 munud y dydd sy'n angenrheidiol i fusnesau y bydd y rheoliadau yn effeithio arnynt wirio trwydded defnyddwyr cartref yn:

| | |
|---|---|
| Rhy hir | |
| Yn agos i'w le | |
| Rhy brin | |
| Ddim yn gwybod | |
| Amh | |

C36: Defnyddiwch y gofod isod i esbonio eich ateb.

C37: A ydych yn meddwl bod yr amser a amcangyfrifwyd o 10 munud y dydd sy'n angenrheidiol i fusnesau y bydd y rheoliadau yn effeithio arnynt gofrestru gwerthiannau yn:

| | |
|---|---|
| Rhy hir | |
| Yn agos i'w le | |
| Rhy brin | |
| Ddim yn gwybod | |
| Amh | |

C38: Defnyddiwch y gofod isod i esbonio eich ateb.

C39: A ydych yn gwerthu gwenwynau Rhan 1 hefyd? (Gweler yr Ymgynghoriad ar y newidiadau arfaethedig i Ddeddf Gwenwynau 1972, Rheolau Gwenwynau 1982, Rhestr Gwenwynau 1982 a'r diwygiadau cysylltiedig.)

| | |
|---|---|
| Ydw | |
| Na | |

## C40: A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y bydd dewisiadau a nodir isod yn sicrhau y bydd yr amcanion polisi yn cael eu cyflawni:

| | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|
| **Dewis 1**: Gwneud dim | | | | |
| **Dewis 2**: Gwahardd gwerthu cemegolion Atodiad 1 uwchlaw'r cyfyngiadau crynodiad i'r cyhoedd | | | | |
| **Dewis 3**: Gadael i'r cyhoedd brynu, defnyddio a meddu cemegolion Atodiad 1 uwchlaw'r cyfyngiadau crynodiad os bydd ganddynt drwydded ddilys | | | | |
| **Dewis 4 a)**: Gadael i'r cyhoedd brynu, defnyddio a meddu Grŵp A o'r cemegolion Atodiad 1 uwchlaw'r cyfyngiadau crynodiad gyda thrwydded, a Grŵp B trwy roi manylion personol ar gofrestr wrth brynu. Uwchlaw'r cyfyngiadau crynodiad i Grŵp B, byddai gwerthu i'r cyhoedd yn cael ei wahardd. | | | | |
| **Dewis 4 b)**: Yr un fath â Dewis 4 a), ond bydd prynu, defnyddio a meddu cemegolion Grŵp B uwchlaw'r cyfyngiadau crynodiad yn cael eu trwyddedu yn hytrach na'u gwahardd. | | | | |
| Arall | | | | |

## C41: Defnyddiwch y gofod isod i esbonio eich ateb

## C42: Gosodwch y dewisiadau yn nhrefn eich dewis:

| | Dewis cyntaf | Ail ddewis | Trydydd dewis | Pedwerydd dewis | Pumed dewis |
|---|---|---|---|---|---|
| Dewis 1 | | | | | |
| Dewis 2 | | | | | |
| Dewis 3 | | | | | |
| Dewis 4a | | | | | |
| Dewis 4b | | | | | |

C43: Defnyddiwch y gofod isod i esbonio eich ateb

C44: Rhowch unrhyw fanylion y byddech am i ni eu hystyried fel rhan o'r ymgynghoriad nad ydynt wedi eu trafod yn y cwestiynau uchod.

## Hysbysiad prosesu teg

Gall rhai o'r cwestiynau yn yr arolwg hwn ofyn am wybodaeth bersonol. Cofiwch **nad oes unrhyw orfodaeth** arnoch i roi'r wybodaeth yma os dymunwch beidio.

Os ydych yn fodlon rhoi gwybodaeth bersonol, sylwer:

- Bydd unrhyw wybodaeth bersonol yn cael ei chadw ar system ddiogel.
- Ni fydd yn cael ei rhannu gyda thrydydd partïon.
- Ni chedwir eich gwybodaeth bersonol am fwy na 6 mis ac fe'i defnyddir at ddibenion yr ymgynghoriad hwn yn unig.
- Gall un o swyddogion y Swyddfa Gartref gysylltu â chi i gael eich ymateb i'r ymgynghoriad ac i drafod eich atebion yn fwy manwl.

ISBN - 978-1-78246-247-7
© Hawlfraint y Goron 2013

recycle
When you have finished with
this publication please recycle it